O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 562 (Cy.57)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Meirion-Dwyfor (Diddymu) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu'r gorfforaeth addysg bellach a sefydlwyd i gynnal y sefydliad addysgol a elwir Coleg Meirion-Dwyfor, ac yn cael effaith o 1 Ebrill 2010 ymlaen. Mae'n darparu ar gyfer trosglwyddo'i heiddo, ei hawliau a'i rhwymedigaethau i gorfforaeth addysg bellach Coleg Llandrillo ac yn sicrhau hawliau ei chyflogeion drwy gymhwyso adran 26(2) i (4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p. 13).

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 562 (Cy.57)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Meirion-Dwyfor (Diddymu) 2010

Gwnaed *2 Mawrth 2010*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *3 Mawrth 2010*

Yn dod i rym *1 Ebrill 2010*

Gwneir y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 27 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**) ("y Ddeddf") ac sydd bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru(**2**).

Yn unol ag adran 27(2) o'r Ddeddf, mae corfforaeth addysg bellach Coleg Llandrillo(**3**) wedi cydsynio i'r trosglwyddiad o eiddo, hawliau a rhwymedigaethau corfforaeth addysg bellach Coleg Meirion-Dwyfor(**4**).

(**1**) 1992 p.13; diwygiwyd adran 27 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 gan erthygl 9 o Orchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005 (O.S. 2005/3238) a pharagraffau 13 ac 16(a)-(c) o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw; gan adran 29 o Ddeddf Addysg Bellach a Hyfforddi 2007 (p. 25); a hefyd gan adrannau 15 a 30 o Ddeddf Addysg Bellach a Hyfforddi 2007 ac Atodlen 2 i'r Ddeddf honno, ond pan wnaed y Gorchymyn hwn nid oedd y darpariaethau hynny wedi eu cychwyn.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 27 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672) ac Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) Sefydlwyd fel "Llandrillo Technical College" gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Bellach) 1992 (O.S. 1992/2097).

(**4**) Sefydlwyd gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Bellach) 1992 (O.S. 1992/2097).

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â chorfforaeth addysg bellach Coleg Meirion-Dwyfor yn unol ag adran 27(7) o'r Ddeddf.

Gan hynny, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Meirion-Dwyfor (Diddymu) 2010 a daw i rym ar 1 Ebrill 2010.

Diddymu a throsglwyddo

2. Ar 1 Ebrill 2010 diddymir corfforaeth addysg bellach Coleg Meirion-Dwyfor a throsglwyddir ei heiddo, hawliau a rhwymedigaethau i gorfforaeth addysg bellach Coleg Llandrillo, sef corff corfforaethol sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â darparu cyfleusterau neu wasanaethau addysgol.

Trosglwyddo staff

3. Mae adran 26(2), (3) a (4) o'r Ddeddf yn gymwys i unrhyw berson a gyflogid gan gorfforaeth addysg bellach Coleg Meirion-Dwyfor yn union cyn 1 Ebrill 2010 fel pe bai'r cyfeiriadau yn yr adran honno—

(a) at berson y mae'r adran honno'n gymwys iddo yn gyfeiriadau at berson a gyflogid felly;

(b) at y dyddiad gweithredol yn gyfeiriadau at 1 Ebrill 2010;

(c) at y trosglwyddwr yn gyfeiriadau at gorfforaeth addysg bellach Coleg Meirion-Dwyfor; ac

(ch) at y gorfforaeth yn gyfeiriadau at gorfforaeth addysg bellach Coleg Llandrillo.

Leighton Andrews

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

2 Mawrth 2010